# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Deisebau

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1**

Dyddiad: Dydd Llun, 18 Mawrth 2024

Amser: 14.00 - 14.43

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/13740

# Hybrid

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Jack Sargeant AS (Cadeirydd)<br>Peredur Owen Griffiths AS<br>Buffy Williams AS<br>Altaf Hussain AS (yn lle Joel James AS) |
| Tystion: | Gillian Kelly, Transport Scotland<br>Carole Stewart, Transport Scotland<br>Paul White, Cydffederasiwn Cludwyr Teithwyr (CPT) Yr Alban |
| Staff y Pwyllgor: | Gareth Price (Clerc)<br>Kayleigh Imperato (Dirprwy Glerc) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

Cafwyd ymddiheuriad gan Joel James AS.

Roedd Altaf Hussain AS yn bresennol yn y cyfarfod, yn dirprwyo ar ran Joel James AS.

Senedd Cymru
Welsh Parliament

Roedd Rhys ab Owen AS yn absennol.

## 2 Sesiwn dystiolaeth - Trafnidiaeth gyhoeddus am ddim i bobl ifanc

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Carole Stewart a Gillian Kelly o Transport Scotland a Paul White o Gonffederasiwn Cludiant Teithwyr yr Alban.

## 3 Deisebau newydd

### 3.1 P-06-1395 Atal datblygiadau newydd sylweddol ar Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Gwastadeddau Gwent

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at y Gweinidog Newid Hinsawdd i ofyn nifer o gwestiynau penodol a godwyd gan y deisebwyr ac Aelodau'r Pwyllgor, cyn penderfynu a ddylid cymryd unrhyw gamau pellach mewn perthynas â'r ddeiseb.

Cytunodd yr Aelodau i anfon y llythyr at y Gweinidog ar ôl i drafodion cyfnod 3 Bil Seilwaith (Cymru) gael eu cynnal yn y cyfarfod llawn (19 Mawrth 2024).

### 3.2 P-06-1404 Cynyddu eglurder a hawliau'r rhai sy'n cael taliadau uniongyrchol neu Grant Byw'n Annibynnol Cymru er mwyn iddynt fyw'n annibynnol

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a nododd fod disgwyl i ddeddfwriaeth ar ofal cymdeithasol gael ei chyflwyno ar ôl y Pasg. Yng ngoleuni hyn, cytunodd yr Aelodau i ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i godi ymwybyddiaeth o'r materion a amlinellwyd yn y ddeiseb a rôl bosibl y Bil wrth fynd i'r afael â hwy.

### 3.3 P-06-1406 Cosbau ariannol i Awdurdodau Addysg Lleol nad ydynt yn cydymffurfio â'r amserlenni ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a chytunodd i godi'r materion a amlinellwyd yn ystod dadl y Pwyllgor Deisebau sydd i ddod ar P-06-1392 Diwygio Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021.

At hynny, cytunodd yr Aelodau i dynnu sylw Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at y ddeiseb.

### 3.4 P-06-1408 Dylid gwneud y mynediad i Ardd Gudd A4042 Goetre Fawr yn ddiogel ar gyfer cerddwyr a cherbydau

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a chroesawodd y datblygiad o gynnal astudiaeth ddichonoldeb gyda'r bwriad o wneud y gwelliannau y tynnwyd sylw atynt yn y ddeiseb. Yn sgil hyn, cytunodd yr Aelodau i gau'r ddeiseb a llongyfarch y deisebydd.

Cytunodd yr Aelodau hefyd i anfon y pwyntiau a'r cwestiynau pellach a godwyd gan y deisebydd at y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd ac anfon copi at yr awdurdod lleol.

## 4 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

### 4.1 P-06-1326 Dylai'r Senedd graffu ar y sgandal mesuryddion rhagdalu yng Nghymru

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a nododd yr ymatebion a ddaeth i law gan Lywodraeth Cymru ac Ofgem, ac y bydd y Senedd yn trafod adroddiad y Pwyllgor ar 1 Mai 2024.

### 4.2 P-06-1359 Dylid cynnig yr un cymorth ariannol ar gyfer gofal plant i rieni sy'n gweithio yng Nghymru â'r hyn sydd ar gael yn Lloegr

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb ochr yn ochr â P-06-1362 Dylid darparu cynnig cyfatebol yng Nghymru i'r cynnig gofal plant newydd yn Lloegr, sef 15 awr, ar gyfer

plant 2 flwydd oed o fis Ebrill 2024 a nododd y ddadl yn y Senedd a glywodd bryderon rhieni ledled Cymru.

Yn sgil y ddadl ac ymateb y Gweinidog, cytunodd yr Aelodau i gau’r ddeiseb a diolch i’r deisebwyr am godi’r mater pwysig.

Yn ogystal â chau’r ddeiseb, cytunodd y Pwyllgor i barhau i frwydro dros hawliau rhieni sy’n gweithio ledled Cymru, yn rhinwedd eu rôl fel Aelodau unigol o’r Senedd.

### 4.3 P-06-1362 Dylid darparu cynnig cyfatebol yng Nghymru i'r cynnig gofal plant newydd yn Lloegr, sef 15 awr, ar gyfer plant 2 flwydd oed o fis Ebrill 2024

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb ochr yn ochr â P-06-1359 Dylid cynnig yr un cymorth ariannol ar gyfer gofal plant i rieni sy'n gweithio yng Nghymru â'r hyn sydd ar gael yn Lloegr a nododd y ddadl yn y Senedd a glywodd bryderon rhieni ledled Cymru.

Yn sgil y ddadl ac ymateb y Gweinidog, cytunodd yr Aelodau i gau’r ddeiseb a diolch i’r deisebwyr am godi’r mater pwysig.

Yn ogystal â chau’r ddeiseb, cytunodd y Pwyllgor i barhau i frwydro dros hawliau rhieni sy’n gweithio ledled Cymru, yn rhinwedd eu rôl fel Aelodau unigol o’r Senedd.

### 4.4 P-06-1369 Defnyddiwch enwau Cymraeg yn unig ar gyfer lleoedd yng Nghymru

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at Weinidog y Gymraeg ac Addysg i ofyn am ragor o fanylion am waith ac adroddiadau ar y goblygiadau o ran defnyddio enwau lleoedd Cymraeg ac unrhyw argymhellion a wnaed ac amserlenni ar gyfer gweithredu.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog Rhif 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

Derbyniwyd y cynnig.

## 6 Trafod y dystiolaeth

Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a glywyd.